Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

# COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

# CYNLLUN YMWELWYR ANNIBYNNOL Â'R DDALFA

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## EBRILL 2016 – MAWRTH 2017

## Cynnwys

1. Rhagair gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys........... 3
2. Cyflwyniad ........................................................................................................ 4
3. Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa................................................................... 4
4. Rotâu Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd ................................................ 5
5. Data Ymweld ........................................................................................................ 7
I. Nifer yr ymweliadau .......................................................................................... 7
II. Nifer y carcharorion.......................................................................................... 8
III. Amseru ymweliadau.......................................................................................... 9
6. Materion a Godwyd............................................................................................ 10
7. Cyfarfodydd Panel ............................................................................................. 12
8. Digwyddiadau Hyfforddi.................................................................................. 12
9. Rhan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa mewn hyfforddi Staff Dalfeydd 12
10. Polisi Gwirfoddolwyr Newydd...................................................................... 13
11. Diddordeb mewn dod yn Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa?............. 13
Atodiad A: ................................................................................................................ 14
Atodiad B .................................................................................................................. 15

## 1. Rhagair gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys



Deilliodd Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd o adroddiad yr Arglwydd Scarman ar Derfysg Brixton ym 1981, a oedd yn argymell system annibynnol ddirybudd i arolygu gweithdrefnau a charcharu mewn gorsafoedd heddlu, gan aelodau o'r gymuned leol. Ffurfiolwyd hyn yn 2002 gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu sy'n gosod dyletswydd statudol ar bob Comisiynydd Heddlu a Throseddu i weithredu Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd.

Sefydlwyd Cynllun Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd yn Nyfed-Powys yn 2001. Ers ei gyflwyno, mae miloedd o ymweliadau wedi'u cynnal mewn dalfeydd ledled ardal Dyfed-Powys.

Mae ymweld â dalfeydd wedi cyflwyno tryloywder o ran prosesau dalfeydd yr heddlu. Mae gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa rôl hollbwysig o ran sicrhau bod Hawliau Dynol carcharorion yn cael eu cynnal a bod Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984 yn cael ei dilyn.

Ni ellir cyflawni hyn heb ymrwymiad pob ymwelydd gwirfoddol a hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch iddynt am eu cefnogaeth, brwdfrydedd a hyblygrwydd. Mae'r ymrwymiad parhaus a ddangosir gan bob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn hollbwysig ar gyfer llwyddiant y Cynllun, a hoffwn gynnig fy niolch personol i bob un ohonynt.

Dafydd Llywelyn

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys


## 2. Cyflwyniad

Gwirfoddolwyr o'n cymuned leol yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, sy'n ymweld â dalfeydd yr heddlu mewn parau, yn ddirybudd, er mwyn gwirio ar les carcharorion a sicrhau bod eu hawliau'n cael eu cynnal. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hefyd yn gwirio ar amgylchedd dalfeydd i sicrhau eu bod nhw'n ddiogel ac o safon dda. Os oes unrhyw bryderon yn cael eu nodi, mae'r rhain yn cael eu codi gan yr ymwelwyr â Rhingyll y Ddalfa i gychwyn, a hefyd trwy swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu er mwyn trafod ag Arolygwyr yr Heddlu. Yna, mae diweddariadau'n cael eu rhoi i Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh) i'w hystyried. Mae unrhyw themâu trosfwaol yn cael eu bwydo i Grŵp Dalfeydd Strategol yr Heddlu ar gyfer ystyriaeth bellach, a chymerir camau gweithredu pellach os yn briodol. Mae rôl Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n cynnig diogelwch i'r carcharorion a thryloywder o ran prosesau cadw.

## 3. Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa

Mae 22 Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa'n rhan o'r Cynllun. Maen nhw wedi'u rhannu ar draws y 4 ardal Panel Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd; Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro.

Ffigwr 1: Nifer yr Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa ym mhob Ardal Panel




Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y Cynllun yn cynrychioli demograffeg Dyfed-Powys, ond yn hollbwysig, gwirfoddolwyr sy'n medru rhoi amser ac ymrwymiad i'r cynllun sy'n cael eu dewis i gymryd rhan.

Mae nifer y gwirfoddolwyr yn isel yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sy'n gwasanaethu yn yr ardaloedd hyn yn rhoi llawer iawn o ymrwymiad. Er mwyn lleihau'r baich arnynt, mae recriwtio'n flaenoriaeth.

Gadawodd 4 Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa y Cynllun rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017: Ymddiswyddodd 3, ac yn drist, bu farw 1 Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa.

Ymunodd 6 Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa newydd â'r Cynllun rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Mae pob Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa newydd wedi cwblhau ei gyfnod prawf yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o'n gwirfoddolwyr yn 55 oed neu'n hŷn, ac mae nifer y menywod a nifer y dynion sy'n gwirfoddoli bron yn gyfartal.

Ffigwr 2: Rhyw ac Oed

| Rhyw: | Canran | Oed: | Canran |
|---|---|---|---|
| Gwryw | 55% | 18-24 | 5% |
| Benyw | 45% | 25-34 | 9% |
| | | 35-44 | 5% |
| | | 45-54 | 0% |
| | | 55-64 | 23% |
| | | 65-74 | 41% |
| | | 75+ | 18% |

## 4. Rotâu Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd

Rhydaman, Aberystwyth, Hwlffordd, Aberhonddu a'r Drenewydd yw'r prif ddalfeydd yn ardal Dyfed-Powys. Ymwelir â Rhydaman, Aberystwyth a Hwlffordd unwaith yr wythnos. Ymwelir ag Aberhonddu a'r Drenewydd unwaith y pythefnos. Mae hyn oherwydd yr amrywiaeth o ran maint a defnydd. Mae dwy ddalfa arall yn Nyfed-Powys, sef Aberteifi a Llanelli. Mae'r rhain yn cael eu defnyddio pan fydd y dalfeydd eraill yn llawn, ac nid yw Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n ymweld â'r dalfeydd hyn fel mater o drefn.

| Dalfa | Nifer y Celloedd |
|---|---|
| Rhydaman | 8 cell |
| Llanelli (Pan fydd dalfeydd eraill yn llawn yn unig) | 10 cell |
| Hwlffordd | 18 cell<br>A 2 ystafell gadw |
| Aberystwyth | 7 cell<br>Ac 1 ystafell gadw (ar gyfer pobl ifainc) ac 1 ystafell sych (dim tŷ bach). |
| Aberteifi ( Pan fydd dalfeydd eraill yn llawn yn unig) | 6 cell |
| Aberhonddu | 8 cell<br>Ac 1 ystafell gadw |
| Y Drenewydd | 8 cell<br>Ac 1 ystafell gadw (ar gyfer pobl ifainc) ac 1 ystafell sych (dim tŷ bach). |

Rhoddir rota i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sy'n pennu pâr o Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i wythnos/pythefnos. Yna, maen nhw'n trefnu diwrnod ac amser yr ymweliad o fewn yr wythnos/pythefnos a nodwyd.

O fewn eu cyfarfodydd Panel Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd, rhoddir data ar eu hymweliadau diweddar i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa; dyddiau ac amserau. Gofynnir iddynt ystyried y data hwn wrth drefnu cyfweliadau, er mwyn sicrhau bod ymweliadau'n cael eu cynnal ar ddyddiau ac amserau amrywiol yn ystod yr wythnos.

Yn 2016, mae ymweliadau traws-Banel wedi'u cynnal. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wedi cael y dewis i ymweld â dalfa mewn ardal Banel arall. Mae hyn yn sicrhau bod arfer da yn cael ei rannu ar draws yr ardaloedd, ac eisoes, mae'r cynllun wedi arwain at faterion newydd yn dod i'r amlwg ar ymweliadau cyntaf Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa â dalfa.

# 5. Data Ymweld


## I. Nifer yr ymweliadau

Yn nifer targed o ymweliadau'r flwyddyn yw 208 ar draws y 5 prif ddalfa: 52 yr un ar gyfer dalfeydd Rhydaman, Aberystwyth a Hwlffordd, a 26 yr un ar gyfer Aberhonddu a'r Drenewydd.

Mae Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi cynnal 199 ymweliad rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn gynnydd o 16% ar y flwyddyn flaenorol, pan gynhaliwyd 171 o ymweliadau.

Mae canran cyffredinol yr ymweliadau targed a gwblhawyd wedi cynyddu o 14% o 82% ym mlwyddyn ariannol 2015-16, i 96% ym mlwyddyn ariannol 2016-17.

Ffigwr 3: Nifer yr ymweliadau ar gyfer pob prif ddalfa – 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 o'i gymharu â 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017 – yn erbyn y nifer targed o ymweliadau.




*Noder: Mae Ffigwr 4 Llanelli/Rhydaman 2015-16 yn cynnwys 33 ymweliad â Llanelli ac 1 ymweliad â Rhydaman, gyda Llanelli/Rhydaman 2016-17 yn cynnwys 20 ymweliad â Rhydaman a 23 ymweliad â Llanelli. Yn gynwysedig o fewn Aberystwyth/Aberteifi 2016-17, ymwelodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa dalfa Aberteifi 5 gwaith.*

## II. Nifer y carcharorion

Yn ystod 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2017, cafodd cyfanswm o 6,260 carcharor ei ddal yn nalfeydd Dyfed-Powys. O'r rhain, roedd 337 yn y ddalfa adeg ymweliadau Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd. Ymwelodd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd â 53% o'r rhai a oedd yn bresennol (180).

Ffigwr 4: Crynodeb o nifer y carcharorion yr ymwelodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa â nhw

| Dalfa | Nifer yr ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa | Nifer y carcharorion yn y ddalfa adeg yr ymweliad | Carcharorion yr ymwelwyd â nhw | % y carcharorion yr ymwelwyd â nhw | Carcharorion yr arsylwyd arnynt | Carcharorion nas ymwelwyd â nhw |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhydaman/Llanelli | 43 | 126 | 73 | 58% | 33 | 20 |
| Hwlfforddd | 52 | 107 | 60 | 56% | 25 | 22 |
| Aberystwyth/ Aberteifi | 50 | 60 | 28 | 47% | 21 | 11 |
| Aberhonddu | 26 | 18 | 9 | 50% | 5 | 4 |
| Y Drenewydd | 28 | 26 | 10 | 38% | 5 | 11 |

** Mae sawl rheswm pam nad yw carcharor yn derbyn ymweliad, er enghraifft, efallai bydd yr heddlu'n cynghori na ddylid ymweld â charcharor am resymau iechyd a diogelwch. Roedd y rhai nad oedd ar gael naill ai'n cael eu cyfweld, yn cysgu, neu'n darparu tystiolaeth DNA/olion bysedd.*

Ffigwr 4: Nifer yr ymweliadau'r mis rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.

| Mis | Ebr | Mai | Meh | Gorff | Awst | Medi | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwef | Maw |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer yr ymweliadau | 15 | 18 | 19 | 15 | 16 | 15 | 18 | 19 | 17 | 15 | 14 | 18 |

*Mae ffigwr 4 yn dangos sawl ymweliad a gynhaliwyd gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yn ystod pob mis. Y nifer targed o ymweliadau fesul blwyddyn yw 208, sef cyfartaledd o 17.3 ymweliad y mis. Cyfanswm yr ymweliadau a gynhaliwyd rhwng Ebrill 2016 a Mawrth 2017 oedd 199, ac fel y dangosir uchod, lledaenwyd rhain yn eithaf cyson ar draws y misoedd.*

## III. Amseru ymweliadau

Ffigwr 5: Nifer yr ymweliadau yn ystod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 o'i gymharu â 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017, yn ôl diwrnod yr wythnos.

| Diwrnodau | Nifer yr ymweliadau | Canran | Nifer yr ymweliadau | Canran |
|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2015-16 | 2016-17 | 2016-17 |
| Dydd Llun | 24 | 14% | 23 | 12% |
| Dydd Mawrth | 36 | 21% | 28 | 14% |
| Dydd Mercher | 33 | 19% | 37 | 19% |
| Dydd Iau | 31 | 18% | 39 | 20% |
| Dydd Gwener | 28 | 16% | 49 | 24% |
| Dydd Sadwrn | 13 | 8% | 14 | 7% |
| Dydd Sul | 6 | 4% | 9 | 4% |

Canol yr wythnos sydd fwyaf cyffredin o hyd ar gyfer ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Mae nifer yr ymweliadau a gynhelir ar benwythnosau'n sylweddol is. Darperir dadansoddiad pellach isod.

Ffigwr 6: Nifer yr ymweliadau yn ystod 1 Ebrill 2015 i 31 Mawrth 2016 o'i gymharu â 1 Ebrill 2016 i 31 Mawrth 2017, yn ôl amser

| Amser | Nifer yr Ymweliadau | Canran | Nifer yr Ymweliadau | Canran |
|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2015-16 | 2016-17 | 2016-17 |
| 06:01-09:00 | 15 | 8% | 16 | 8% |
| 09:01-12:00 | 87 | 51% | 84 | 42% |
| 12:01-15:00 | 28 | 17% | 44 | 21% |
| 15:01-18:00 | 27 | 16% | 37 | 19% |
| 18:01-21:00 | 14 | 8% | 13 | 7% |
| 21:01-00:00 | 0 | 0% | 4 | 2% |
| 00:01-03:00 | 0 | 0% | 1 | 1% |

Yr amser mwyaf cyffredin ar gyfer ymweliadau gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa yw rhwng 09:00 a 12:00.

Yn aml iawn, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n cynnal ymweliadau yn y bore, sef yr amser prysuraf yn y ddalfa, gan uchafu'r cyfle o weld cymaint o garcharorion â phosibl. Nid oes llawer o ymweliadau'n cael eu cynnal ar ôl 21:00 oherwydd mae carcharorion fel arfer yn cysgu, felly mae'n debygol y bydd llai o garcharorion ar gael i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa siarad â nhw yn ystod oriau hwyrach.

Fodd bynnag, atgoffir Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa am yr angen i gynnal ymweliadau yn ystod amserau amrywiol, gan gynnwys penwythnosau yn ogystal â diwrnodau'r wythnos, er mwyn sicrhau na fydd modd darogan eu hymweliadau.

## 6. Materion a Godwyd

Yn ystod eu hymweliadau, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n gwirio ar les carcharorion, yn ogystal â'r amodau y maent yn cael eu cadw. Mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n ymwybodol o'r hawliau sydd gan garcharorion sy'n cael eu cadw yn y ddalfa yn unol â Chod C Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984. Ceir crynodeb o'r rhain yn Atodiad B.

Disgwylir i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa drafod unrhyw fân faterion lles neu amgylcheddol â Rhingyll y Ddalfa neu'r swyddog cysylltiedig adeg yr ymweliad.

Gweler isod restr o bryderon a godwyd gan ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 ac ymateb o ran y cynnydd a wnaed yn erbyn pob pryder:

- Problemau o ran pad allwedd cell ddim yn gweithio yn Aberystwyth – Yn dilyn y pryder hwn, ymwelodd trydanwr â'r ddalfa er mwyn datrys y mater hwn.
- Cawod wedi torri yn ddalfa Aberystwyth – ar ôl i'r mater hwn gael ei godi, archebwyd a gosodwyd pen cawod newydd.
- Prinder siwtiau gwrth-rwyg yn ddalfa Llanelli – Archebwyd mwy o siwtiau gwrth-rwyg, gan ddatrys y mater hwn.
- Prinder sliperi mewn meintiau penodol o fewn ddalfa Llanelli – archebwyd mwy o sliperi a datryswyd y mater hwn.
- Craciau yn y llawr yn ddalfa Aberhonddu – mae'r tîm ystadau wedi cael gwybod am y pryder hwn, a bydd gwaith cynnal a chadw'n cael ei gynnal dros y flwyddyn i ddod.
- System aerdymheru ddiffygiol yn ddalfa Drenewydd – Ymwelodd peiriannydd â'r ddalfa a datryswyd y broblem hon.
- Roedd angen stilwyr rheoli tymheredd bwyd er mwyn sicrhau bod bwyd yn cael ei weini ar y tymheredd cywir yn ddalfa Rhydaman– Erbyn hyn, mae'r ddalfa'n defnyddio stilwyr er mwyn monitro tymheredd y bwyd

sy'n cael ei weini i garcharorion. Mae tymheredd bwyd yn cael ei gofnodi ar siart yng nghegin y ddalfa.

- Materion draenio â'r toiledau yn ddalfa Rhydaman– Ymchwiliwyd i'r mater a nodwyd a datryswyd y broblem.
- Anghysondeb â'r system TCC, amseru allan a sain o ansawdd isel yn Aberystwyth– Tynnwyd y materion hyn i sylw'r Arolygydd ac fe'u datryswyd.
- Gall planhigion sy'n tyfu o fewn yr iard ymarfer corff yn Rhydaman ddod yn fater hunan-niweidio – Ar ôl i'r pryder hwn gael ei godi, cliriwyd yr iard ymarfer corff o bob planhigyn.

Mae unrhyw faterion na ellir eu datrys yn ystod ymweliad, neu faterion y mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n teimlo sydd angen eu trin ar lefel uwch, yn cael eu hadrodd wrth y gweinyddwr cynllun o fewn swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh).

Mae pryderon sy'n cael eu hadrodd wrth y gweinyddwr cynllun yn cael eu cofnodi a'u dilyn gan Brif Arolygydd Dalfeydd Heddlu Dyfed-Powys (HDP). Byddant yn ystyried y materion, yn rhoi diweddariad/adroddiad i weinyddwr y cynllun, ac yn cymryd unrhyw gamau gweithredu gofynnol.

Mae sylwadau ac arsylwadau cadarnhaol hefyd yn cael eu nodi ar y ffurflenni a'u hadrodd yn ôl wrth uwch staff dalfeydd.

Mae gweinyddwr y cynllun yn rhoi gwybod i Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa am ganlyniad eu hadroddiad, a chynhelir trafodaethau pellach o gwmpas y materion yn y Cyfarfod Panel Ymweliadau Annibynnol â Dalfeydd nesaf.

Bydd gweinyddwr y cynllun hefyd yn mynychu cyfarfodydd Bwrdd Dalfeydd Strategol er mwyn cael gwybod am unrhyw faterion perthnasol, a holi cwestiynau i'r heddlu.

Pe bai angen ystyried unrhyw faterion ar lefel uwch, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n cyflwyno'r mater mewn cyfarfod o'r Bwrdd Plismona er mwyn ei drafod â'r Prif Gwnstabl.

## 7. Cyfarfodydd Panel

Cynhelir Cyfarfodydd Panel Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd ddwywaith y flwyddyn ym mhob ardal. Yn y cyfarfodydd hyn, mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n cael cyfle i drafod unrhyw faterion sydd wedi'u codi â Rhingyll y Ddalfa. Mae'n rhaid iddynt fodloni eu hunain bod yr esboniadau a roddir yn ddigonol, a bod y canlyniad yn sicrhau nad oes unrhyw effaith andwyol ar les, hawliau dynol neu iechyd a diogelwch carcharor. Hefyd, mae'n gyfle i adlewyrchu ar y 6 mis diwethaf; sut mae'r Cynllun yn mynd rhagddo a pha un ai a oes modd gwneud unrhyw welliannau.

## 8. Digwyddiadau Hyfforddi

Rydyn ni'n cynnal Diwrnodau Hyfforddi Blynyddol ar gyfer ein Hymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa. Ar 14 Medi 2016, derbyniodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa hyfforddiant gloywi gan y Gymdeithas Ymweliadau Annibynnol â'r Ddalfa yn y bore, a sesiwn ar 'Sgiliau Cadeirio Cyfarfodydd' yn y prynhawn a sesiwn hyfforddi ar gyfer pob Cadeirydd Panel sydd â diddordeb mewn mynychu.

Ar 18 Tachwedd 2016, rhoddwyd cyfle i Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd fynychu sesiwn hyfforddiant 'Ymwybyddiaeth o Anableddau Dysgu ac Awtistiaeth'. Cynigiwyd yr hyfforddiant hwn drwy'r Gymdeithas Ymweliadau Annibynnol â'r Ddalfa gan y Prosiect Cyfartal a Theg. Ariannwyd y prosiect er mwyn cyflwyno hyfforddiant ar awtistiaeth a'r system cyfiawnder troseddol. Yn ystod yr hyfforddiant, dysgodd Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa sut y gall awtistiaeth effeithio ar bobl yn y system cyfiawnder troseddol ac yn y ddalfa, a sut i adnabod problemau cyfathrebu a sut i ymateb.

## 9. Rhan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa mewn hyfforddi Staff Dalfeydd

Yn ystod Ionawr 2017 – Mawrth 2017, mae ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa wedi bod yn gysylltiedig â diwrnodau hyfforddiant gloywi ar gyfer staff dalfeydd. Gofynnwyd i'r Gweinyddwr Cynllun roi cyflwyniad ar y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa i staff y ddalfa. Helpodd hyn i fynd i'r afael â phryderon mewn perthynas â diffyg ymwybyddiaeth o'r cynllun Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a'r gwiriadau y mae Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa'n cynnal yn ystod eu hymweliadau. Rhoddodd y Gweinyddwr Cynllun ac Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa gyflwyniadau i staff dalfeydd. Roedd y cyfle'n galluogi hyfforddiant gloywi am brif agweddau'r cynllun, esboniad o ffurflen adroddiad ymweliad Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa, manylion am rôl Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa a'r gwiriadau maen nhw'n cyflawni. Yn ogystal, rhoddodd hyn gyfle gwych i staff dalfeydd holi unrhyw gwestiynau a oedd ganddynt mewn perthynas â'r cynllun.

## 10. Polisi Gwirfoddolwyr Newydd

Daeth Polisi Gwirfoddolwyr newydd i rym ym mis Mehefin 2016. Polisi trosfwaol ydyw sy'n nodi hawliau gwirfoddolwyr, ac egwyddorion cyffredinol gwirfoddoli yng nghynlluniau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

Cyflwynodd y Polisi Gwirfoddolwyr rai newidiadau i bolisïau blaenorol, er enghraifft; mae'r ddaliadaeth uchaf o 9 mlynedd ar gyfer pob gwirfoddolwr wedi'i ddisodli gan system adolygu. Unwaith y bydd Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd wedi cwblhau eu hyfforddiant cychwynnol, disgwylir iddynt gwblhau cyfnod prawf o 6 mis. Yna, bydd penodiadau llwyddiannus yn cael eu cadarnhau yn amodol ar lynu'n foddhaol wrth ddarpariaethau'r cynllun, a byddant yn cael eu gosod am gyfnod cychwynnol o dair blynedd. Ar ôl hynny, bydd penodiadau'n cael eu hadolygu, a gall gwirfoddolwyr gael eu penodi am dymor pellach o dair blynedd. Bydd hyn yn parhau ar sail dreigl, gydag adolygiadau'n cael eu cynnal bob tair blynedd. Y ffactorau allweddol a fydd yn cael eu hystyried ym mhob adolygiad yw gallu a pharodrwydd parhaus gwirfoddolwyr i gyflawni'r rôl yn effeithiol, tra'n arddangos amhleidioldeb a gwrthrychedd bob tro.

Hefyd, gwnaed diwygiad mewn perthynas â'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer ymuno â'r cynllun. Bellach, mae'r polisi'n nodi bod yn rhaid i unigolion fyw, gweithio neu astudio yn ardal Dyfed-Powys.

## 11. Diddordeb mewn dod yn Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa?

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a dod yn Ymwelydd Annibynnol â'r Ddalfa yn ardal Dyfed-Powys, a hoffech gael rhagor o wybodaeth, galwch heibio i:
www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/work-with-me/volunteer/independent-custody-visitors/

Neu cysylltwch â Caryl Bond ar 01267 226097

Neu

E-bost: caryl.bond.opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk

## Atodiad A:

| **Ceir crynodeb o hawl carcharor o dan God C PACE isod. Darperir y wybodaeth hon i garcharorion yn yr orsaf heddlu. Ceir manylion llawn yng Nghod Ymarfer C yr Heddlu.** |
|---|
| **1**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi eisiau cyfreithiwr i'ch helpu pan fyddwch chi yn yr orsaf heddlu. Nid oes tâl ar gyfer hyn. |
| **2**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi eisiau bod rhywun yn cael gwybod ble rydych chi. Nid oes tâl ar gyfer hyn. |
| **3**. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi eisiau edrych ar eu rheolau - gelwir y rhain yn Godau Ymarfer. |
| **4**. Dywedwch wrth yr heddlu os oes angen cymorth meddygol arnoch. Dywedwch wrth yr heddlu os ydych chi'n teimlo'n sâl neu wedi'ch anafu. Nid oes tâl ar gyfer cymorth meddygol. |
| **5**. Os holir cwestiynau i chi am drosedd dybiedig, does dim rhaid i chi ddweud dim byd. Ond gall niweidio eich amddiffyniad os na fyddwch chi'n sôn, wrth gael eich holi am rywbeth y byddwch chi'n dibynnu arno nes ymlaen yn y Llys. Gall unrhyw beth yr ydych yn ei ddweud gael ei roi fel tystiolaeth |
| **6**. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthych am y drosedd maen nhw'n credu'ch bod chi wedi'i chyflawni a pham rydych chi wedi'ch arestio ac yn cael eich cadw. |
| **7**. Rhaid i'r heddlu adael i chi neu'ch cyfreithiwr weld cofnodion a dogfennau am y rheswm rydych chi wedi'ch arestio ac yn cael eich cadw ac am eich amser yng ngorsaf yr heddlu. |
| **8**. Os oes angen cyfieithydd arnoch, rhaid i'r heddlu ddarparu un ar eich cyfer. Hefyd, cewch ddogfennau penodol wedi'u cyfieithu. Nid oes tâl ar gyfer hyn. |
| **9**. Dywedwch wrth yr heddlu os nad Prydeiniwr ydych ac rydych chi eisiau cysylltu â'ch llysgenhadaeth neu gonsyliaeth, neu os ydych eisiau iddynt gael gwybod eich bod chi'n cael eich cadw. Nid oes tâl ar gyfer hyn. |
| **10**. Rhaid i'r heddlu ddweud wrthych am ba mor hir maen nhw'n medru'ch cadw. |
| **11**. Os ydych chi'n cael eich cyhuddo ac mae'ch achos yn mynd i'r llys, bydd gennych chi neu'ch cyfreithiwr hawl i weld tystiolaeth yr erlyniad cyn y gwrandawiad llys. |

## Atodiad B

| Y gwiriadau amgylcheddol a gyflawnir gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wrth ymweld â Dalfa: |
|---|
| - Gwiriwch fod y celloedd yn lân (celloedd gwag a chelloedd wedi'u meddiannu lle bo'n bosibl). |
| - Gwiriwch fod y gegin a'r ardal paratoi bwyd yn lân a thaclus. |
| - Gwiriwch fod pob ardal arall o fewn y ddalfa'n lân a thaclus. |
| - Gwiriwch fod y gwres, golau ac awyru'n ddigonol. |
| - Gwiriwch fod yr ystafell feddygol wedi'i chloi os nad oes gweithiwr gofal iechyd proffesiynol yn bresennol. |
| - Gwiriwch fod y pecyn cymorth cyntaf ar gael yn hawdd. |
| - Gwiriwch fod cyflenwad dillad gwely, siwtiau gwrth-rwyg a dillad sbâr digonol. |
| - Gwiriwch fod cyflenwadau bwyd digonol. |
| - Gwiriwch fod y ddalfa'n rhydd rhag unrhyw beryglon iechyd a diogelwch amlwg. |
| - Gwiriwch fod systemau TCC a'r swnyn yn y gell yn gweithio. |
| - Gwiriwch fod deunydd crefyddol ar gael yn hawdd i garcharorion. |
| - Gwiriwch nad oes mannau rhwymo sy'n cyflwyno perygl i garcharorion. |

| Y gwiriadau lles a gyflawnir gan Ymwelwyr Annibynnol â'r Ddalfa wrth ymweld â Dalfa: |
|---|
| - Ydyn nhw'n cael eu trin yn rhesymol? |
| - Ydyn nhw wedi cael gwybod am eu hawliau cyfreithiol a'u hawliau o ran ymwelwyr? |
| - Ydyn nhw'n deall eu hawliau fel y maent wedi'u hesbonio wrthynt? |
| - A oes rhywun wedi cael gwybod am eu cadwad (os ydyn nhw wedi gofyn am hyn)? |
| - Ydyn nhw wedi gweld cyfreithiwr (os ydyn nhw wedi gofyn am hyn)? |
| - Ydyn nhw wedi cael/cael cynnig bwyd/diod? |
| - Ydyn nhw wedi gofyn am/derbyn sylw meddygol os oes ei angen? |
| - Ydyn nhw wedi cael mynediad i gyfleusterau toiled/glendid/ymolchi? |
| - A ddarparwyd dillad gwely ychwanegol/dillad amgen/blanced, os oes angen? |
| - A roddwyd cyfnodau gorffwys a/neu ymarfer, os yn briodol? |